WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

**Dyddiad cyhoeddi:** 5 Ebrill 2017

# CVs neu geisiadau am swydd wedi'u ffugio

Yn dilyn fy neges e-bost dyddiedig 24 Mawrth 2017, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 23 Mawrth 2017, sef:

**a)** **gwybodaeth am 'nifer y staff y cafwyd eu bod wedi ffugio eu CVs/ceisiadau am swydd yn ystod blynyddoedd calendr 2015 a 2016';**

**b)** **a oes gennym unrhyw wybodaeth sy'n cyfateb i ran (a) o'ch cais, manylion am 'radd swydd yr unigolyn a pha gamau a gymerwyd';**

**c)** **ein graddau swydd a'n bandiau cyflog – gan gynnwys allwedd i unrhyw derminoleg a ddefnyddir mewn perthynas â graddau.**

**Rhannau (a) a (b)**

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth sy'n cyfateb i rannau (a) na (b) o'ch cais.

**Rhan (c)**

O ran rhan (c) o'ch cais, rwyf wedi atodi tabl sy'n amlinellu ein graddfeydd cyflog ar gyfer 2016-17. Rwyf wedi golygu rhywfaint o'r wybodaeth am deitlau swyddi o'r tabl hwn gan ei bod yn dod o dan yr eithriad a ddarperir gan adran 40(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n eithriad absoliwt. Mae'r eithriad yn gymwys gan y byddai datgelu'r wybodaeth hon yn mynd yn groes i egwyddorion diogelu data Deddf Diogelu Data 1998.

Rwyf hefyd wedi atodi dogfen (Atodiad 1) sy'n cynnwys allwedd i'r termau a ddefnyddir yn ein tabl graddfa gyflog, ac esboniad o'r mathau o rolau a gynhwysir yn y bandiau yr wyf wedi golygu'r wybodaeth ar eu cyfer.

Os bydd gennych unrhyw gŵyn am y ffordd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, anfonwch e-bost ataf neu ysgrifennwch ataf.

Mae'n rhaid i mi hefyd eich cyfeirio at adran 50 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. O dan yr adran honno, cewch ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth benderfynu a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r Ddeddf. Mae manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:

The Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

e-bost: casework@ico.org.uk

Ffôn: 0303 123 1113
Ffacs: 01625 524510

Fodd bynnag, dylech nodi y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl i chi ddilyn pob cam o dan ein gweithdrefnau cwyno mewnol ni cyn gwneud cais o'r fath. Ceir rhagor o ganllawiau ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,